**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

# Adroddiad ar Fesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Rhagfyr 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8154
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad ar Fesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Rhagfyr 2010

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

Rhaid i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 a chyflwyno adroddiadau ar unrhyw un ohonynt, a chaiff ystyried y materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 15.3 ac 15.6 a chyflwyno adroddiadau ar y rheini.

**Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ym mis Mehefin 2007 (fel y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth). Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn Rheol Sefydlog 15 yn benodol. Mae'r rhain i'w gweld yn www.cynulliadcymru.org

**Aelodau'r Pwyllgor**

| *Aelod Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Janet Ryder (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |
| Alun Davies | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| William Graham | Y Ceidwadwyr Cymreig | Dwyrain De Cymru |
| Rhodri Morgan | Llafur | Gorllewin Caerdydd |
| Kirsty Williams | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

# Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor** ........ **5**

**Swyddogaeth y Pwyllgor** ........ **6**

Rheolau Sefydlog ........ 6

**Y Mesur arfaethedig** ........ **6**

Cefndir Polisi ........ 7

Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth ........ 8

Rhannau 1 a 2 – Atgyfnerthu Democratiaeth Leol ac Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol – sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer hybu a chefnogi aelodaeth o awdurdodau lleol:- ........ 8

Rhannau 3, 4 a 5 – Llywodraethu ........ 11

Rhan 6 – Trosolwg a Chraffu: - Mae'r darpariaethau o fewn y rhan hon yn ymwneud â Phwyllgorau Craffu a Throsolwg awdurdodau lleol ........ 12

Rhan 7 – Cymunedau a Chynghorau Cymuned:- Mae'r darpariaethau yn yr adran hon yn ymwneud â chyfarfodydd cymunedol, pleidleisio cymunedol a chynghorau cymuned. ........ 14

Rhan 8 – Taliadau a phensiynau aelodau (Lwfansau Cynghorwyr)16

Rhan 9 – Cyffredinol ........ 17

**Materion sy'n codi o dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor** ........ **19**

Cyffredinol ........ 19

Pwerau nas bwriadwyd i'w defnyddio neu a gedwir yn ôl ........ 19

Gweithdrefnol neu weinyddol ........ 20

Pwerau a gedwir yn ôl ........ 20

Pwerau eraill ........ 21

Gweithdrefnau ar gyfer pwerau eraill ........ 25

Adran 10 ........ 25

Adran 143 ........ 26

Memorandwm Esboniadol ........ 27

**Tystion** ........ **28**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **29**

## Argymhellion y Pwyllgor

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai Adran 10(1) gael ei diwygio i egluro bod y pŵer yn Adran 10(1)(b) yn ymwneud yn unig ag addasiadau i reolau sefydlog mewn cysylltiad â staff a gaiff eu darparu o dan Adran 8(1)(b). **(tudalen 27)**

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai'r pwerau i wneud rheoliad o dan Adran 143, sy'n ymwneud ag achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol, gael eu harfer drwy ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. **(tudalen 27)**

## Swyddogaeth y Pwyllgor

### Rheolau Sefydlog

1. O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a ganlyn a chyflwyno adroddiadau arnynt:

- Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn datgan y caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig … sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru'.
- Er nad yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i wneud sylwadau ar rinweddau'r cynnig y mae'r Mesur arfaethedig yn bwriadu ei weithredu, mae Rheol Sefydlog 15.6(v) yn datgan y caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru'.

2. Diben yr adroddiad hwn yw llywio Cyfnod 1 o drafodaethau'r Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyfnodau deddfwriaethol dilynol.

## Y Mesur arfaethedig

3. Cyflwynwyd y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)[1] ar 12 Gorffennaf 2010 gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Dilynwyd hyn gan ddatganiad deddfwriaethol gan y Gweinidog yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 13 Gorffennaf 2010[2]. Cafodd y Mesur arfaethedig ei gyfeirio at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 ar gyfer trafodaethau cyfnod 1 (egwyddorion cyffredinol). Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfnod 1 yw 17 Rhagfyr 2010.

[1] http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=191170&ds=7/2010
[2] Cofnod y Trafodion – 13 Gorffennaf tudalennau 87 - 104

**Cefndir Polisi**

4. Ceir crynodeb o gefndir polisi y Mesur arfaethedig ym mharagraff 1 o'r Memorandwm Esboniadol fel a ganlyn –

> "1.1 Diben y Mesur hwn yw gwneud newidiadau y bwriedir iddynt atgyfnerthu strwythurau llywodraeth leol yng Nghymru a gwella'r modd y mae'n gweithio, a hynny ar bob lefel a sicrhau bod cynghorau lleol yn estyn allan at bob sector o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, ac yn ymgysylltu â hwy.
>
> 1.2. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer:-
>
> 1.2.1 ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn llywodraeth leol drwy ganiatáu camau a fydd yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau a'r anghymhellion sy'n atal pobl rhag sefyll mewn etholiadau cynghorau lleol (Rhannau 1-2 o'r Mesur arfaethedig);
>
> 1.2.2 galluogi adolygu a gwella'r strwythurau llywodraethu a gyflwynwyd drwy gyfrwng Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel y bo'r strwythurau hynny'n gweddu'n well i amgylchiadau llywodraeth leol yng Nghymru (Rhannau 3-4);
>
> 1.2.3 cryfhau rôl cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o weithrediaethau'r awdurdodau lleol ("aelodau'r meinciau cefn") mewn perthynas â chraffu ar wasanaethau lleol (Rhannau 5-6);
>
> 1.2.4 datblygu a chryfhau rôl cynghorau cymuned yng Nghymru, gan gynnwys eu galluogi i gyflenwi ystod ehangach o wasanaethau ac i weithredu'n ehangach yn lleol, ac i fod yn fwy effeithiol o ran eu rôl fel cynrychiolwyr ac o ran eu gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill (Rhan 7);
>
> 1.2.5 diwygio'r system ar gyfer pennu lwfansau cynghorwyr (Rhan 8);
>
> 1.2.6 caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio rhwng awdurdodau lleol, a chydlafurio rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill (Rhan 9).
>
> 1.3 Dyma'r cyrff y bydd y Mesur arfaethedig yn gymwys iddynt:-
>
> - Prif Gynghorau
> - Cynghorau Cymuned
> - Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
> - Awdurdodau Tân ac Achub
> - Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

**Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth**

5. O'i gymharu â Mesurau arfaethedig eraill y mae'r Pwyllgor wedi'u hystyried, mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys nifer fawr o bwerau i wneud rheoliadau a gorchmynion. Wedi dweud hyn, mae nifer y pwerau i wneud rheoliadau a gorchmynion yn adlewyrchu hyd y Mesur, sef 108 o dudalennau i gyd. Ceir manylion y rhain isod.

***Rhannau 1 a 2 – Atgyfnerthu Democratiaeth Leol ac Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol – sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer hybu a chefnogi aelodaeth o awdurdodau lleol:-***

6. Mae **adran 1** yn darparu i Weinidogion Cymru ragnodi'r cwestiynau arolwg y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu gofyn wrth gyflawni'r ddyletswydd i gynnal arolwg ymhlith ymgeiswyr aflwyddiannus a chynghorwyr.

7. **Gweithdrefn:** Bydd rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 1 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**. Bydd y pŵer i wneud rheoliadau a geir yn adran 1 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ffurf y cwestiynau y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu gofyn ac i bennu sut y bydd y wybodaeth a grynhoir yn cael ei hanfon at Weinidogion Cymru. Mae rhestr ar wyneb y Mesur o'r math o wybodaeth a gaiff ei chasglu am ymgeiswyr aflwyddiannus ac am gynghorwyr gan ddefnyddio'r cwestiynau rhagnodedig, ond nid yw'r rhestr honno'n un gynhwysfawr. Os byddai gofyn i'r rheoliadau gynnwys y math o wybodaeth a grybwyllwyd uchod, yna, gellir dadlau y byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, gan fod y math hwn o wybodaeth wedi'i gynnwys eisoes ar wyneb y Mesur, ac mai dim ond cwestiynau yn seiliedig ar y wybodaeth hon fydd yn y rheoliadau, mae'n addas defnyddio'r weithdrefn negyddol. Gan ei bod yn bosibl hefyd y bydd angen gwneud nifer o ddiweddariadau i fanylion technegol a gweinyddol y rheoliadau arfaethedig yn y dyfodol, a hynny ar fyr rybudd, mae'n briodol felly bod rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

8. Mae **adran 2** yn darparu i Weinidogion Cymru bennu ar ba ffurf y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol roi'r wybodaeth y maent wedi'i chrynhoi i Weinidogion Cymru.

9. **Gweithdrefn:** Mae adran 2 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**. Gan y bydd unrhyw welliannau i'r adran hon o natur dechnegol a/neu weinyddol, mae'r weithdrefn negyddol yn briodol.

10. **Adran 9.** Bydd y pwerau gwneud rheoliadau yn **adran 9** (1)(i) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau gwasanaethau democrataidd a ragnodir.

11. **Gweithdrefn:** Mae rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 9 (1)(i) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **cadarnhaol**. Bernir bod hyn yn addas oherwydd gall yr adran hon ychwanegu at swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, fel sydd wedi'u hamlinellu yn y Mesur ei hun, a dylid craffu ar unrhyw swyddogaethau ychwanegol.

12. **Adran 10.** Bydd y pwerau gwneud rheoliadau yn **adran 10** yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ymgorffori yn eu rheolau sefydlog ddarpariaeth sy'n ymwneud â rheoli staff a gaiff eu dynodi i weithio gyda Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ac i wneud addasiadau eraill i'w rheolau sefydlog.

13. **Gweithdrefn:** Mae pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 10 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol**. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y weithdrefn penderfyniad negyddol yn addas gan ei bod yn bosibl y bydd angen gwneud nifer o ddiweddariadau i fanylion technegol a gweinyddol y rheoliadau arfaethedig yn y dyfodol.

14. Nid yw adran 10 yn nodi unrhyw gyfyngiadau sydd ar awdurdodau lleol i addasu'r rheolau sefydlog. O gofio natur rheolau sefydlog, sef eu bod yn llywodraethu ar weithdrefnau a gweithrediadau awdurdodau lleol, a bod dim cyfyngiadau wedi'u crybwyll yn adran 10 rydym, ym mharagraff 98, wedi ystyried cyfyngu ar y pŵer i addasu'r rheolau sefydlog sy'n ymwneud â rheoli staff.

15. Mae **adran 24** yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru nodi'r manylion ar gyfer penderfynu ar gyfnod o absenoldeb teuluol ar gyfer aelod o awdurdod lleol.

16. **Gweithdrefn:** Mae rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 24 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**. Ystyrir mai hon fydd y weithdrefn addas ar gyfer rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 24 oherwydd bydd y rheoliadau yn cyflwyno cynllun absenoldeb newydd ar gyfer aelodau awdurdodau lleol.

17. Mae **adran 25** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i nodi'r manylion ar gyfer penderfynu sut i gyfrifo cyfnod o absenoldeb mamolaeth. Ni ddylai'r rheoliadau ddarparu i gyfnod absenoldeb mamolaeth fod yn fwy na 26 wythnos.

18. **Gweithdrefn:** Mae rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 25 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**. Am yr un rhesymau a nodwyd dros addasrwydd y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 24, byddai'r un peth yn wir am briodoldeb y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 25. Yn yr achos hwn, mae'r cynllun absenoldeb newydd yn ymwneud ag absenoldeb mamolaeth.

19. Mae **adran 26** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi natur a chyfnodau absenoldeb newydd-anedig. Ni ddylai'r rheoliadau ddarparu i gyfnod o absenoldeb ynghylch plentyn newydd-anedig fod yn fwy na phythefnos o hyd.

20. **Gweithdrefn:** Mae rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 26 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**. Unwaith eto, am yr un rhesymau a nodwyd yn achos adrannau 24 a 25, mae hyn i'w weld yn addas.

21. Mae **adran 27** yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r manylion ar gyfer penderfynu sut i gyfrifo cyfnod o absenoldeb mabwysiadu. Ni ddylai'r rheoliadau ddarparu i gyfnod o absenoldeb ynghylch mabwysiadu plentyn fod yn fwy na phythefnos o hyd.

22. **Gweithdrefn:** Mae rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 27 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**. Unwaith eto, bernir mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn briodol gan ei bod yn dibynnu ar gymeradwyaeth cynllun fel yn adrannau 24, 25 a 26.

23. Mae **adran 28** yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi natur a chyfnodau absenoldeb mabwysiadu newydd. Ni

ddylai'r rheoliadau ddarparu i gyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd fod yn fwy na phythefnos o hyd.

24. **Gweithdrefn:** Mae rheoliadau o dan adran 28 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**. Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol i'r adran gan ei bod yn ymwneud â chymeradwyo cynllun newydd.

25. **Adran 29.** Mae'r pwerau gwneud rheoliadau yn **adran 29** yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi natur a chyfnodau absenoldeb rhiant. Ni ddylai'r rheoliadau ddarparu i gyfnod o absenoldeb rhiant mewn perthynas â phlentyn fod yn fwy na, neu'n gyfwerth â thri mis.

26. **Gweithdrefn:** Mae rheoliadau o dan adran 29 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**. Unwaith eto, credir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol gan ei bod yn ymwneud â chymeradwyo cynllun newydd.

27. Mae **adran 30** yn darparu i Weinidogion Cymru ragnodi'r gweithdrefnau gweinyddol i'w dilyn gan awdurdodau lleol, ynghyd â chwmpas yr absenoldeb, gan gynnwys parhâd unrhyw fanteision sy'n dod i aelodau sydd â hawl i absenoldeb o dan y rhan hon o'r Mesur o ganlyniad i'w haelodaeth o'r awdurdod neu'r weithrediaeth, ac yn atodol i'r pwerau a wneir o dan adrannau 24 i 29 o'r Mesur.

28. **Gweithdrefn:** Mae rheoliadau o dan adran 30 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**. Mae rheoliadau o dan adran 30 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer canlyniadau methu â rhoi hysbysiadau, dangos tystiolaeth, cadw cofnodion neu gydymffurfio â gofynion gweithdrefnol eraill. Caiff rheoliadau o dan yr adran hon hefyd wneud darpariaeth ar gyfer canlyniadau methu â gweithredu yn unol â'r hysbysiadau a nodwyd eisioes, yn ogystal â gwneud darpariaeth sy'n rhoi hawl i aelod o awdurdod lleol (neu o'r weithrediaeth) gyflwyno cwyn am benderfyniad a wnaed gan awdurdod lleol i ddod â chyfnod o absenoldeb i ben neu i ohirio neu ganslo cyfnod o absenoldeb, ac i gymhwyso deddfiad neu wneud addasiadau iddo. Caiff "Addasiadau" ei ddiffinio yn y Mesur i gynnwys "diwygiadau", ac mae rheoliadau a gaiff eu gwneud yn unol ag adran 30 yn gyfwerth â chymal Harri'r Wythfed, ac yn gallu diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

***Rhannau 3, 4 a 5 – Llywodraethu***

29. Mae **adran 34** yn rhoi effaith i Atodlen 1, y mae paragraff 13(2) yn Rhan 3 ohoni yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen a'u bod yn dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth sydd ar ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru. Nid oes rheswm dros gredu na fydd awdurdodau lleol yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i weithredu trefniadau gweithrediaeth yn lle trefniadau amgen, fodd bynnag, mae adran 34 yn bŵer diofyn rhag ofn na chaiff y newid o un trefniant i'r llall ei gwblhau.

30. **Gweithdrefn:** Mae'r pŵer i wneud gorchymyn sydd wedi'i gynnwys yn adran 34 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol**. Mae hyn yn briodol o gofio natur drefniadol y pŵer.

31. Mae **adran 55** yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru eithrio unrhyw swyddogaethau neu gyfyngu ar y graddau y caiff aelod o'r cyngor nad yw'n aelod gweithrediaeth arfer swyddogaeth.

32. **Gweithdrefn:** Mae'r pŵer gwneud gorchymyn sydd wedi'i gynnwys yn adran 55 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol**. Mae hyn yn briodol o gofio natur drefniadol y pŵer ac o gofio bod y pŵer cyfatebol ynglŷn â swyddogaethau na ddylid cael eu cyflawni gan y weithrediaeth (adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

***Rhan 6 – Trosolwg a Chraffu: - Mae'r darpariaethau o fewn y rhan hon yn ymwneud â Phwyllgorau Craffu a Throsolwg awdurdodau lleol***

33. Mae **adran 57** yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu sut y caiff dau awdurdod lleol neu ragor benodi cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu, ac i nodi'r trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau'r pwyllgor.

34. **Gweithdrefn:** Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 57 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol**. Mae hyn yn briodol gan fod y darpariaethau yn ymwneud â manylion gweinyddol y cynllun sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur.

35. Mae **adran 60** yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddynodi person at ddibenion adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru

ddynodi person mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal sirol. Effaith hyn fydd rhoi rhwymedigaeth ar y personau neu'r cyrff dynodedig hynny i ymateb i geisiadau i fynd i gyfarfodydd pwyllgorau craffu, neu i roi gwybodaeth iddynt.

36. **Gweithdrefn:** Mae'r pŵer i wneud gorchymyn yn adran 60 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **cadarnhaol** gan ei bod yn briodol caniatau trafodaeth chymeradwyo pa bersonau a pha gyrff y dylid craffu arnynt mewn ardal llywodraeth leol.

37. Mae **adran 62** yn diwygio adran 21A o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru bennu materion y gellir eu heithrio rhag cael eu hystyried gan bwyllgorau trosolwg a chraffu.

38. **Gweithdrefn:** Mae'r pŵer i wneud gorchymyn yn adran 62 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol**. Mae hyn yn briodol gan fod yr adran yn ymwneud â'r manylion gweinyddol sydd eu hangen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur.

39. Mae **adran 74** yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru bennu sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol benodi cadeiryddion pwyllgorau trosolwg a chraffu.

40. **Gweithdrefn:** Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 74 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol.** Mae hyn yn briodol gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â'r manylion gweinyddol sydd eu hangen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur.

41. Mae **adran 80** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth ynghylch gweithgareddau arfaethedig pwyllgorau trosolwg a chraffu yn y dyfodol.

42. **Gweithdrefn:** Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 80 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol**. Mae hyn yn briodol gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â'r manylion gweinyddol sydd eu hangen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur.

***Rhan 7 – Cymunedau a Chynghorau Cymuned:- Mae'r darpariaethau yn yr adran hon yn ymwneud â chyfarfodydd cymunedol, pleidleisio cymunedol a chynghorau cymuned.***

43. Mae **adran 97** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddatgymhwyso'r darpariaethau hysbysu sydd yn yr adran yn achos pleidleisio cymunedol lle y bo'r cwestiwn yn gwestiwn o fath a bennir ganddynt mewn rheoliadau. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i eithrio cwestiynau penodol o'r gofyniad sydd ar y swyddog canlyniadau i hysbysu'r prif gyngor perthnasol am y bleidlais ac am ganlyniadau'r bleidlais.

44. **Gweithdrefn:** Mae adran 97 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol**. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â gofynion hysbysu mewn cysylltiad â phleidleisio, a dichon y bydd gofyn eu diwygio, a hynny ar ffurf diwygiadau o natur weinyddol a thechnegol y gall fod angen eu diweddaru yn y dyfodol.

45. Mae **adran 116** yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio amryfal drothwyon pleidleisio mewn cysylltiad â bodolaeth cyngor cymuned neu â grwpio cymuned a chymunedau eraill drwy fewnosod adran newydd i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Ni cheir gwneud unrhyw orchymyn cyn ymgynghori â'r prif gynghorau neu â'r corff sy'n eu cynrychioli a chyda'r cynghorau cymuned neu â'r corff sy'n eu cynrychioli hwythau. Bernir bod hyn yn briodol i bŵer gwneud gorchymyn gan mai dyma'r ffordd o ddiwygio'r trothwyon sydd i'w gweld ar wyneb Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygir gan y Mesur.

46. **Gweithdrefn:** Mae adran 116 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai dyna sy'n briodol gan y bydd yn caniatáu i'r Cynulliad drafod a chymeradwyo'r newidiadau. Dylid nodi ei bod yn bosibl diwygio trothwyon i newid trothwy pleidleisio o dan y ddarpariaeth hon, i sefydlu neu ddiddymu cynghorau cymuned, gan ei gwneud yn haws neu'n anos na'r hyn a gynigir gan y Mesur. Fodd bynnag, gan na ellir gwneud gorchymyn cyn ymgynghori â'r prif gynghorau, ynghyd â'r angen hwn i ymgynghori, mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol yn yr achos hwn.

47. Mae **adran 119(5)(c)** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu at y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad cyhoeddus sy'n rhoi manylion am fwriad cyngor cymuned i gyfethol.

48. **Gweithdrefn:** Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol** ac mae hyn yn briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion gweinyddol a thechnegol y gall fod angen eu diweddaru yn y dyfodol.

49. Mae **adran 122** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu at y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad cyhoeddus sy'n rhoi manylion am fwriad cyngor cymuned i benodi cynrychiolydd ieuenctid.

50. **Gweithdrefn:** Mae adran 22 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol** a bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion gweinyddol a thechnegol y gall fod angen eu diweddaru yn y dyfodol.

51. Mae **adran 124** yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu y caiff cynrychiolwyr ieuenctid eu trin fel aelod o'r cyngor a benododd y cynrychiolydd, at y dibenion penodol a bennir yn y rheoliadau.

52. **Gweithdrefn:** Mae adran 124 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol** a bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â manylion gweinyddol a thechnegol y gall fod angen eu diweddaru yn y dyfodol.

53. Mae **adran 130** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn er mwyn diwygio, diddymu, dirymu neu ddatgymhwyso unrhyw ddeddfiad sydd, yn eu barn hwy, yn atal neu'n rhwystro cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer llesiant. Caiff y pŵer hwn ei arfer mewn cysylltiad â phob cyngor cymuned neu â chynghorau cymuned neilltuol, neu mewn cysylltiad â disgrifiadau neilltuol o gynghorau cymuned, ac am gyfnod neilltuol.

54. **Gweithdrefn:** Mae adran 130 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **uwchgadarnhaol**. Bernir mai dyna sy'n briodol oherwydd mai dim ond drwy gyfrwng y weithdrefn gyfatebol yn Nau Dŷ'r Senedd y ceir arfer pŵer cyfatebol yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae adran 166 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cynnal proses ymgynghori fel sy'n ofynnol yn adran 166 cyn gwneud gorchymyn o dan adran 130.

55. Mae **adran 133** yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer i wneud gorchymyn sy'n nodi cytundeb siarter enghreifftiol rhwng prif gyngor a chyngor cymuned. Mae'r cytundeb siarter yn cynnwys manylion am sut y gall awdurdodau lleol a chynghorau cymuned arfer eu swyddogaethau er mwyn cynnal a gwella'r modd y maent yn cydweithio.

56. **Gweithdrefn:** Mae adran 133 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol**.

57. Mae **adran 137** yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cynllun achredu ansawdd ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru. Mae adran 137 yn bŵer gwneud rheoliad sy'n addas, gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion cynllun achredu a all newid yn rheolaidd.

58. **Gweithdrefn:** Mae adran 137 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol**.

59. Mae **adran 143** yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i wneud addasiadau i'r modd y gweithredir unrhyw ddeddfiad mewn cysylltiad â chynghorau cymuned neilltuol sy'n deillio o'r ffaith bod y cyfryw gynghorau wedi'u hachredu, neu fel arall. Mae'n caniatáu ar gyfer rhoi o'r neilltu, neu ei gwneud yn haws cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth ar gynghorau cymuned yn y dyfodol y bernir nad oes eu hangen yn rhinwedd y ffaith bod y cyngor cymuned wedi'i achredu.

60. **Gweithdrefn:** Mae adran 143 yn cynnwys pŵer Harri'r Wythfed sy'n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, mae adran 1143 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol**.

***Rhan 8 – Taliadau a phensiynau aelodau (Lwfansau Cynghorwyr):-***

61. Mae darpariaethau o fewn y rhan hon yn ymwneud â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gweithredu'r system ar gyfer penderfynu ar gydnabyddiaeth i gynghorwyr yng Nghymru.

62. Mae **adran 161** yn rhoi pŵeri wenud gorchymyn i Weinidogion Cymru ddiwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud ag aelodaeth y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a'r darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Panel.

63. **Gweithdrefn:** Mae'r pŵer i wneud gorchymyn yn adran 161 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**. Gan fod y pŵer yn ymwneud â materion gweithredol sy'n gysylltiedig â sut y penodir y Panel, neu â'i swyddogaethau, mae'r weithdrefn penderfyniad **cadarnhaol** yn briodol gan y byddai'n rhoi cyfle i'r Cynulliad drafod a chymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig i sut y penodir y Panel, neu i'w swyddogaethau.

***Rhan 9 – Cyffredinol***

64. **Adran 170:-** Y pŵer i wneud darpariaeth atodol ac Adran 171:- Cychwyn. Mae adran 171 yn pennu'r dyddiad y bydd unrhyw un neu rai o ddarpariaethau'r Mesur yn dod i rym.

65. Er mwyn ystyried datblygiadau yn y dyfodol ym maes llywodraeth leol ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol y gall fod rhaid i awdurdodau lleol ymateb iddi, mae adran 170 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, ganlyniadol, gysylltiedig, drosiannol, ddarfodol ac arbedol i'r rhannau priodol o'r Mesur. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer diweddaru manylion technegol yn y darpariaethau yn ôl yr angen yn sgil pasio Mesurau neu Ddeddfau eraill. Mae angen y pŵer hwn er mwyn darparu ar gyfer rhoi effaith lawn i'r cyfryw orchymyn mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Mesur, a hynny oherwydd ei bod y debygol o fod yn fanwl iawn.

66. Mae'r pŵer i wneud gorchymyn yn **adran 170** yn ddarosgyngedig i'r weithdrefn penderfyniad **negyddol** onid oes ynddo addasiadau i ddeddfiad. Mewn achos o'r fath, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a gaiff ei defnyddio. Mae hyn yn briodol oherwydd y byddai modd diwygio deddfiadau a byddai'n rhoi cyfle i'r Cynulliad drafod a chymeradwyo'r diwygiad, er efallai y byddai'r Pwyllgor am ystyried a fyddai'r weithdrefn uwchgadarnhaol yn well.

67. **Nid oes unrhyw weithdrefn Cynulliad** ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn **adran 171**. Dyna yw'r arferiad yn achos darpariaethau cychwyn.

68. Mae adran 171 (1) yn nodi y daw adrannau 57, 80, 82, 83 a 162; Penodau 2 i 9 o Ran 7; Rhan 9 (ac eithrio adran 169) a Rhan E o Atodlen 4 (ac adran 169(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan E o Atodlen 4) i rym drannoeth y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

69. Mae adran 171 (2) yn nodi y daw Rhannau 3 a 4; adran 54 ac adrannau 75 i 79 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis yn dechrau ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

70. Mae adran 171 (3) yn nodi, ac eithrio is-adrannau (1) a (2) uchod, y daw'r Mesur hwn i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

## Materion sy'n codi o dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor

71. Ystyriwyd y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) gennym ar 13 Hydref 2010 a chafwyd tystiolaeth ysgrifenedig[3] a thystiolaeth lafar[4] gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'i swyddogion.

72. Gofynnwyd, hefyd, am dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y Gweinidog, a chafodd y wybodaeth honno ei hystyried ar 24 Tachwedd 2010.

### Cyffredinol

73. Rydym yn fodlon bod y Mesur arfaethedig yn gyffredinol yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng pwerau ar ei wyneb a'r pwerau is-ddeddfwriaethol a roddir i Weinidogion Cymru.

74. Rydym yn fodlon, hefyd, er bod nifer sylweddol o bwerau gwneud rheoliadau yn y Mesur arfaethedig, na fydd y tu hwnt o gymhleth.

75. O ran y darpariaethau is-ddeddfwriaeth y mae'n eu cynnwys, ni allwn weld unrhyw reswm pam na ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

### Pwerau nas bwriadwyd i'w defnyddio neu a gedwir yn ôl

76. Roedd nifer y pwerau y gwnaeth y Llywodraeth gais amdanynt yn y lle cyntaf yn peri pryder i ni gan ei fod yn ymddangos nad oedd yn bwriadu defnyddio rhai ohonynt ar hyn o bryd, neu defnyddio i'w cadw fel pwerau wrth gefn. O'r 23 o bwerau is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig, mae 16 ohonynt yn dod o fewn y categorïau hyn.

77. Yn dilyn tystiolaeth lafar y Gweinidog, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor ar ein rhan at y Gweinidog[5] yn gofyn am esboniad pellach o'r rhesymau dros yr angen am y pwerau a pham na fyddai wedi bod yn bosibl gwneud darpariaethau ar wyneb y Mesur. Roedd ymateb y Gweinidog[6] yn dangos y byddai'n gamarweiniol i gyffredinoli am y

[3] CA(3)-28-10(p6)(e)
[4] Cofnod y Trafodion – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol – 13 Hydref 2010
[5] CA(3)-28-10(p3)(e)
[6] CA(3)-28-10(p4)(e)

pwerau hyn, y dylid eu hystyried yn unigol yng nghyd-destun yr amcanion polisi penodol sydd o dan sylw. Fodd bynnag, cynorthwyodd y Gweinidog drwy roi esboniadau pellach am bob un o'r pwerau dan sylw, ac mae hynny wedi lleddfu'r rhan fwyaf o'n pryderon.

***Gweithdrefnol neu weinyddol***

78. Am y rheswm hwn, rydym yn fodlon bod y pwerau a ganlyn yn weithdrefnol neu'n weinyddol yn bennaf, eu bod yn briodol ar gyfer is-ddeddfwriaeth a bod y weithdrefn briodol yn cael ei defnyddio ar gyfer pob un:

- **Adran 9 (1)**: – Pŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau gwasanaethau democrataidd a ragnodir
- **Adran 119**: – Pŵer i wneud rheoliadau – gofyniad hysbysiad ar gyfer llenwi swydd wag drwy gyfethol
- **Adran 122**: – Pŵer i wneud rheoliadau – gofyniad hysbysiad ar gyfer penodi cynrychiolydd ieuenctid cymunedol
- **Adran 130**: – Pŵer i wneud gorchmynion – diwygio neu ddiddymu deddfiad sy'n rhwystro neu'n atal cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer llesiant.
- **Adran 143**: – Pŵer i wneud rheoliadau – diwygio neu diddymu deddfwriaeth mewn cysylltiad â chynghorau cymuned penodol o ganlyniad i gael eu hachredu neu fel arall.
- **Adran 161**: – Pŵer i wneud gorchmynion – diwygio darpariaeth am y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

***Pwerau a gedwir yn ôl***

79. Rydym yn fodlon hefyd, fod y pwerau a ganlyn yn rhai priodol i'w cadw wrth gefn rhag ofn i awdurdod lleol neu gyngor cymuned fethu â gweithredu yn unol ag amcan polisi a nodir ar wyneb y Mesur arfaethedig:

- **Adran 34**: – Pŵer i wneud gorchmynion os oes methiant ar ran Awdurdod Lleol i roi'r gorau i weithredu trefniadau amgen.

- **Adran 74**: – Pŵer i wneud rheoliadau i nodi sut mae awdurdodau lleol yn penodi cadeiryddion pwyllgorau trosolwg a phwyllgorau craffu
- **Adran 133**: – Pŵer i wneud gorchmynion – pŵer i nodi cytundeb siarter
- **Adran 137**: – Pŵer i wneud rheoliadau – cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd

***Pwerau eraill***

80. Mae nifer o bwerau o hyd lle rydym wedi ystyried yn ofalus a oedd y pwerau'n briodol a'r weithdrefn yn ddigon cadarn o gofio natur y pwerau y gwneir cais amdanynt.

*Adrannau 56 a 55*

81. Mae Adran 55 o'r Mesur arfaethedig yn galluogi awdurdodau lleol i wneud trefniadau i ddirprwyo aelodau anweithredol o awdurdod i arfer swyddogaethau pwyllgor gwaith y cyngor. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud gorchymyn i eithrio swyddogaethau rhag cael eu dirprwyo neu i osod cyfyngiadau ar y graddau y gellir arfer swyddogaethau. Mae Adran 56 yn bŵer dilynol sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000.

82. Cadarnhaodd y Gweinidog mewn tystiolaeth lafar nad oes ganddo fwriad o ddefnyddio'r pŵer ar hyn o bryd. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 13 Hydref, 2010, dywedodd:

> "We expect that councillors and executives will act responsibly in their duty. While we do not feel that we need to list exclusions on the face of the proposed Measure, we may need to list them at some point with regard to the detail. We would not want a council or an executive to delegate functions to an individual councillor, such as budget setting, planning or licensing powers. We do not think that councils would do that, but if they did, we would think that would be inappropriate anyway. That is the fall-back provision – we would not want

> them to delegate significant powers to individuals around planning, licensing and so on."[7]

83. Cadarnhawyd hyn yn y wybodaeth bellach[8] a ddarparwyd gan y Gweinidog, lle y soniodd hefyd am swyddogaethau yn ymwneud â chynllunio neu drwyddedu fel enghreifftiau o rai a allai gael eu heithrio. Cyfeiriodd y Gweinidolg, hefyd, at y ffaith fod pŵer Adan 56 eisoes ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr a'i fod eisoes wedi cael ei arfer.

84. O gofio'r pŵer llydan y mae'r adran hon yn ei roi i awdurdodau lleol, ystyriwyd argymell y dylai rhestr heb fod yn gyflawn o swyddogaethau a eithrir gael ei rhoi ar wyneb y Mesur. Fodd bynnag, cawsom ein darbwyllo gan ddadl y Gweinidog y dylid caniatau i awdurdodau lleol gael ychydig o hyblygrwydd wrth arfer y pŵer a bod y pŵer yn adran 55(4), sy'n caniatau i Weinidogion eithrio swyddogaethau neu roi amodau ar y ffordd y cant eu harfer, yn briodol i ganiatau iddynt wneud penderfyniadau yn ngholeuni profiad ac amgylchiadau lleol penodol.

*Adran 62*

85. Mae Adran 62 yn caniatau i Weinidogion Cymru nodi materion y gellir cael eu heithrio o'u hystyried gan pwyllgorau trosolog a phwyllgorau craffu. Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw fwriad o ddefnyddio'r pŵer ar hyn o bryd. Yn ei wybodaeth bellach[9] i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

> "the order-making power is prudent to provide a safeguard against irresponsible references. By not including a list of excluded matters on the face of the proposed Measure, the Welsh Ministers will be able to respond to developments and take action in the light of experience".

86. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 13 Hydref 2010[10], soniodd y Gweinidog am gyfleusterau amddiffyn fel un maes posibl a allai gael ei eithrio. Nododd y Pwyllgor, hefyd, fod pŵer cyfatebol eisoes ar gael i'r

---

[7] Cofnod y Trafodion – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol – 13 Hydref 2010 – para 79
[8] CA(3)-28-10(p4)(e)
[9] CA(3)-28-10(p4)(e)
[10] Cofnod y Trafodion – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol – 13 Hydref 2010 – para 100

Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â Lloegr, a'i fod wedi cael ei arfer.

87. Yng ngoleuni hyn, rydym yn fodlon bod y pŵer yn rhesymol and yn gymesur o dan yr amgylchiadau.

*Adran 97*

88. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatau i Weinidogion Cymru ddad-gymhwyso'r darpariaethau hysbysu a gaiff eu cynnwys o fewn yr adran o bleidleisio cymunedol lle mae'r cwestiwn o fath a nodir mewn rheoliadau a wneir ganddynt. Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw fwriad o ddefnyddio'r pŵer ar hyn o bryd ac nad oes unrhyw gyfyngiad ar hyn o bryd ar y math o gwestiwn a allai fod yn destun pleidleisio cymunedol.

89. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 13 Hydref 2010, dywedodd y Gweinidog:

> "it is very much a fall-back position, and I do not believe that we will use it often. It will be used rarely if at all…perhaps if there were circumstances that could lead to racial or religious tensions, we would consider it appropriate to use that power."[11]

90. Yn ei wybodaeth bellach[12] i'r Pwyllgor, mae'r Gweinidog yn cadarnhau:

> "the regulation-making power is prudent to provide a safeguard allowing them to intervene in the event of polls taken on questions which are, for example inflammatory or defamatory".

91. Yng ngoleuni sicrwydd y Gweinidog am y defnydd cyfyngedig tebygol o'r pŵer a natur yr amgylchiadau y gallai gael ei ddefnyddio, rydym yn fodlon bod y pŵer yn rhesymol ac yn gymesur.

*Adran 116*

92. Mae Adran 116 yn caniatau i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r trothwyon ar gyfer yr amrywiol weithdrefnau sefydlu a diddymu mewn cysylltiad â chynghorau cymuned a gyflwynir gan y

---

[11] Cofnod y Trafodion – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol – 13 Hydref 2010 – para 117 ac 119

[12] CA(3)-28-10(p4)(e)

Mesur. Mae'n ymddangos fel pe bai'n rhoi disgresiwn eang iawn i Weinidogion bennu trothwyon, gan gynnwys y posibilrwydd o bennu trothwyon newydd mewn ffordd a allai wyro pleidleisio tuag at ganlyniadau penodol.

93. Mae'r Gweinidog wedi nodi nad oes ganddo unrhyw fwriad o ddefnyddio'r pŵer ar hyn o bryd. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 13 Hydref 2010, dywedodd:

> "The thresholds in the proposed Measure are, I believe, set appropriately to deliver the policy of making it easier to establish a community council…we also need to ensure that there is appropriate strength of feeling within a community before a council can be dissolved. So we think that we have measured that appropriately for the thresholds. It is important for us that Ministers can revisit the thresholds should that be necessary, and the affirmative resolution combined with the consultation with local government and communities recognises that".[13]

94. Yn ei lythyr dyddiedig 15 Tachwedd,[14] dywedodd hefyd:

> The power, limited as it is to the amendment of the thresholds, is not so wide-ranging as to make the super affirmative procedure appropriate in my view. The procedures for the establishment and dissolution of community councils are convoluted and involve several stages. Amending the threshold for a community poll is unlikely to be a particularly effective or efficient mechanism for achieving a particular outcome.

95. Gan fod y weithdrefn yn gadarnhaol, ynghyd â'r gofyniad am ymgynghori ymlaen llaw, credwn ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau, a derbyniwyd ymateb y Gweinidog, bod y pŵer yn gyfyngedig i ddiwygio'r trothwyon ac nad yw, felly, mor eang â golygu bod angen gweithdrefn uwchgadarnhaol.

---

[13] Cofnod y Trafodion – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol – 13 Hydref 2010 – para 127

[14] CA(3)-28-10(p4)(e)

*Adran 124*

96. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau i ddarparu ar gyfer cynrychiolydd ieuenctid cymunedol i gael ei drin fel aelod o'r cyngor cymuned at ddibenion a nodir yn y rheoliadau. Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw fwriad o ddefnyddio'r pŵer ar hyn o bryd. Yn ei lythyr at y Pwyllgor,[15] mae'r Gweinidog yn cadarnhau ei fod yn ystyried y pŵer yn ddarbodus:

> "…if experience shows that it would be appropriate and in the interests of those concerned".

97. Er nad yw'n hollol glir o dan pa amgylchiadau y byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod natur y pŵer a'r amcanion polisi y tu ôl iddo yn ddiniwed.

**Gweithdrefnau ar gyfer pwerau eraill**

***Adran 10***

98. Yn ogystal â chaniatau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch rheolau sefydlog sy'n ymwneud â staff a ddarperir gan bennaeth y gwasanaethau democrataidd, mae Adran 10 (1) (b) o'r Mesur, hefyd yn caniatau "gwneud addasiadau eraill i reolau sefydlog yr awdurdod". Mae'r pŵer hwn yn ehangach na'r pŵer presennol a ddarperir gan Adran 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac ymddengys ei fod yn caniatau i Weinidogion Cymru wneud unrhyw addasiadau i reolau sefydlog y Cynulliad. Y cynnig yw bod y weithdrefn negyddol yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw reoliadau o'r fath.

99. Cadarnhaodd y Gweinidog mai bwriad y Llywodraeth yw y bydd y pŵer yn gyfyngedig i reolau sefydlog sy'n ymwneud â rheoli staff Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Fodd bynnag, cadarnhaodd hefyd, yn ei ymateb i'r Pwyllgor[16] ac mewn tystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3[17] ar 18 Tachwedd, ei fod wedi gofyn i'w swyddogion edrych ar eiriad yr adran.

100. Ein barn yw y byddai'r pŵer fel y cafodd ei ddrafftio yn ddigon eang i ganiatau i'r Llywodraeth wneud unrhyw ddiwygiadau i reolau sefydlog awdurdod lleol. Gan fod hyn yn mynd y tu hwnt i fwriad

[15] CA(3)-28-10(p4)(e)
[16] CA(3)-28-10(p4)(e)
[17] Cofnod y Trafodion – Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 – 18 Tachwedd 2010 – para 73

polisi'r Gweinidog, credwn y dylid diwygio'r adran hon er mwyn ei gwneud yn glir bod unrhyw addasiadau y gall y Llywodraeth eu gwneud i reolau sefydlog yn gyfyngedig i staff a ddarperir o dan Adran 8(1)(b).

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Adran 10(1) gael ei diwygio i egluro bod y pŵer yn Adran 10(1)(b) yn ymwneud yn unig ag addasiadau i reolau sefydlog mewn cysylltiad â staff a gaiff eu darparu o dan Adran 8(1)(b).**

***Adran 143***

101. Mae Adran 143 yn caniatau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n addasu deddfwriaeth, gan gynnwys Deddfau Seneddol, i ddileu neu ddiwygio rhwystrau statudol o gynghorau cymuned achrededig a rhoi rhwystrau ar gynghorau cymuned nad ydynt wedi'u hachredu.

102. Ein barn gyffredinol yw bod y weithdrefn rheoliad gadarnhaol yn briodol ar gyfer yr hyn a elwir yn bwerau Harri'r wythfed fel y rhain oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Yn yr achos hwn, awgrymir y weithdrefn negyddol.

103. Yn ei ymateb, dywedodd y Gweinidog[18]:

> "Section 143 does introduce a Henry VIII power with the negative procedure, but we consider the procedure to be appropriate given its limited and specific application.
>
> The Committee's own legal report points out:
>
> *'these amendments arise in consequence of the accreditation of quality in community government provisions, and so for these reasons the negative resolution procedure maybe the appropriate procedure in the circumstances'.*
>
> The law will not be amended on the face of it pursuant to this power, but rather its application to certain specified community councils (pursuant to the section 143 regulations) depending on whether such councils have accreditation or not."

---

[18] CA(3)-28-10(p4)(e)

104. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r pŵer i roi rhwystrau ar ffordd cynghorau cymunedol nad ydynt wedi'u hachredu (y rhai nad ydynt wedi cyrraedd safon arbennig) ac rydym yn pryderu nad yw'n glir eto pa feini prawf y dylai cynghorau cymuned eu cyrraedd i gael eu hachredu gan nad yw rheoliadau o dan Adran 137 ac Adran 138 heb gael eu gwneud eto.

105. Rydym yn cydnabod fod y ddadl yn fwy cytbwys yn yr achos hwn nag ar achlysuron eraill pan gynigiwyd y dylai pwerau Harri'r Wythfed gael eu harfer gan benderfyniad negyddol. Er hynny, rydym yn parhau o'r farn mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r un briodol yn yr achos hwn.

106. Yng ngoleuni'r ffactorau hyn rydym yn argymell y byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol yn yr achos hwn.

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai'r pwerau i wneud rheoliad o dan Adran 143, sy'n ymwneud ag achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol, gael eu harfer drwy ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.**

**Memorandwm Esboniadol**

107. Wrth ystyried y Mesur arfaethedig hwn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi bod yn cynnal ymchwiliad ar wahân ar ddrafftio deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn ystod y Trydydd Cynulliad.

108. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r ymchwiliad hwnnw maes o law a bydd yn cynnwys ein canfyddiadau ar eglurder a defnyddioldeb Memoranda Esboniadol ac unrhyw argymhellion a allai fod yn briodol. Er hynny, mae nifer o dystion yn yr ymchwiliad wedi nodi mai'r Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig hwn yw un o'r goreuon iddynt ddod ar ei draws.

109. Roedd croeso arbennig i'r rhesymeg roedd yn ei gynnwys ar gyfer gweithdrefnau i arfer pob pŵer datganoledig ac efallai y byddai'n ddefnyddio ymestyn hyn i Femoranda yn y dyfodol.

## Tystion

110. Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn www.cynulliadcymru.org

*13 Hydref 2010*

| | |
|---|---|
| Carl Sargeant AC | Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol |
| Frank Cuthbert | Pennaeth y Tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru |
| Anne Koppel | Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

111. Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a ganlyn. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

| *Dogfen* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) | CA(3)-23-10(p2) |
| Memorandwm Esboniadol | CA(3)-23-10(p3) |
| Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol | CA(3)-23-10(p4) |
| Llythyr dyddiedig 22 Medi oddi wrth y Cadeirydd at Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | CA(3)-23-10(p5) |
| Ymateb y Gweinidog, dyddiedig 4 Hydref | CA(3)-23-10(p6) |
| Llythyr ychwanegol y Cadeirydd at y Gweinidog, dyddiedig 20 Hydref | CA(3)-28-10(p3) |
| Ymateb y Gweinidog, dyddiedig 15 Tachwedd | CA(3)-28-10(p4) |
| Adroddiad ategol y Cynghorwyr Cyfreithiol | CA(3)-28-10(p5) |